

Cyflawni

dyletswydd

Prevent mewn

modd cymesur

a theg

Canllawiau i ddarparwyr addysg
yng Nghymru ar sut i ddefnyddio
cyfraith cydraddoldeb a hawliau
dynol yng nghyd-destun Prevent



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Cynnwys

- 1. Ynglŷn â'r canllawiau yma**
 - 1.1. I bwy y bwriadwyd y canllawiau yma?
 - 1.2. Beth yw cynnwys y canllawiau?
 - 2. Cydraddoldeb, hawliau dynol a'r ddyletswydd Prevent**
 - 3. Canllawiau i lywodraethwyr**
 - 4. Canllawiau i arweinwyr Prevent**
 - 4.1. Asesu effaith bosibl eich cynllun gweithredu Prevent
 - 4.2. Rhannu gwybodaeth â llywodraethwyr a monitro'r effaith wirioneddol
 - 5. Sicrhau eglurder ac atebolrwydd**
 - 6. Safbwynt Cymru**
 - 7. Rhagor o wybodaeth**
 - 8. Ôl-nodyn**
-

1. Ynglŷn â'r canllawiau yma

Ers 2015, mae darparwyr addysg uwch wedi gorfod cydymffurfio â dyletswydd Prevent. Dan y ddyletswydd yma, mae gofyn iddyn nhw roi systemau ar waith i adnabod, herio a mynd i'r afael â phob ffurf ar eithafiaeth¹ er mwyn helpu atal staff a myfyrwyr agored i niwed rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Lleisiwyd pryderon bod y ddyletswydd Prevent weithiau'n cael ei chyflawni mewn modd a fyddai'n gallu:

- tanseilio hawliau a rhyddid sylfaenol staff a myfyrwyr
- mygu'r rhyddid i lefaru a rhyddid academaidd
- arwain at wahaniaethu ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,
- stigmatiddio neu elyniaethu carfanau o staff a myfyrwyr
- methu â chydabod yr amrediad eang o eithafiaeth y bwriadwyd y ddyletswydd i'w atal

Bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw y bydd dyletswydd Prevent yn cael ei harfer mewn ffordd sensitif a chymesur sy'n ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a'r angen i gynnal y rhyddid i lefaru ac i wneud hynny'n agored².

Bydd y rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch eisoes wedi rhoi ar waith eu trefniadau i gydymffurfio â dyletswydd Prevent, ac rydym yn gwybod bod gan y sector ymrwymiad cryf i gydraddoldeb, hawliau dynol, rhyddid i lefaru a rhyddid academaidd. Nid mater o gydymffurfiad cyfreithiol ac osgoi arferion gwahaniaethol yn unig yw cydymffurfio â'r gyfraith ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng nghyd-destun dyletswydd Prevent - fe ddylai hefyd helpu darparwyr addysg uwch:

- i greu a chryfhau diwylliant lle mae pobl yn teimlo'n hyderus i fynegi pwy ydynt a beth maent yn ei greu
 - cynnal ymddiriedaeth staff, myfyrwyr a chymunedau ehangach, a denu eu cefnogaeth i'r penderfyniadau a wnaed wrth gyflawni gofynion dyletswydd Prevent, a
 - denu a chadw'r staff a'r myfyrwyr mwyaf talentog ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol.
-

1.1. I bwy y bwriadwyd y canllawiau yma?

Mae a wnelo dyletswydd Prevent â 'chyrff addysg uwch perthnasol'⁴. Bydd gan y rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch hefyd gyfrifoldebau dan ddyletswyddau eraill sy'n rhan o gyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol⁵. Fodd bynnag, oherwydd bod y cyfrifoldebau hynny'n gymwys mewn ffyrdd ychydig yn wahanol ar draws Prydain ac ar draws y sector, fe wnaethom ni gyfyngu cwmpas y canllawiau yma i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru. Fodd bynnag, fe ddylai'r holl gyrff addysg uwch perthnasol ar draws Prydain Fawr gael y canllawiau hyn yn ddefnyddiol wrth ddarparu gwybodaeth ar gyfer y gwaith a wnânt i gydymffurfio â dyletswydd Prevent. Gallai fod o gymorth hefyd i fyfyrwyr, undebau myfyrwyr neu aelodau o staff â diddordeb yn y maes yma ar hyd a lled Prydain Fawr.

Bydd y canllawiau'n arbennig o berthnasol os ydych chi:

- yn **Ilywodraethwr** â chyfrifoldeb am sicrhau bod eich sefydliad yn cydymffurfio â'i holl rwymedigaethau dan y gyfraith, neu
- yn **arweinydd Prevent** â chyfrifoldeb am ddarganfod risgiau sy'n berthnasol i ddyletswydd Prevent ac am ddatblygu cynllun gweithredu i rwystro'r risgiau hynny

1.2. Beth yw cynnwys y canllawiau?

Mae'r canllawiau yma'n darparu gwybodaeth gyffredinol ar y gofynion cydraddoldeb a hawliau dynol, a chanllawiau i helpu llywodraethwyr ac arweinwyr Prevent eu harfer wrth ddarparu gwybodaeth ar gyfer eu gwaith Prevent.

Mae'n ategu'r adnoddau eraill sydd ar gael ar wefan [Safe Campus Communities](#) ac yn canolbwyntio ar gyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol yn unig. Fel y cyfryw, nid yw'n:

- atgynhyrchu gwybodaeth ar ddyletswydd Prevent ei hun, nac yn
- darparu gwybodaeth ar y ddyletswydd sydd ar ddarparwyr addysg uwch i gymryd camau i sicrhau rhyddid i lefaru a rhyddid academaidd o fewn y gyfraith⁶.

I weld rhagor o wybodaeth am hyn, darllenwch yr adnoddau perthnasol sydd wedi'u rhestru yn yr adran 'Rhagor o Wybodaeth'.

2. Cydraddoldeb, hawliau dynol, nodau llesiant a'r ddyletswydd Prevent

Mae gofynion yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 y dylai darparwyr addysg uwch eu defnyddio er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni dyletswydd Prevent mewn modd priodol, cymesur a theg.

Mae Deddf **Cydraddoldeb 2010**⁷ yn gofyn bod darparwyr addysg uwch yn gweithredu mewn ffyrdd nad ydynt yn gwahaniaethu, yn aflonyddu nac yn erlid myfyrwyr cyfredol, cyn-fyfyrwyr na darpar-fyfyrwyr yn anghyfreithlon oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig⁸. Mae hefyd yn cyflwyno gofynion ychwanegol dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED)⁹ i awdurdodau cyhoeddus, fel darparwyr addysg uwch, ystyried cydraddoldeb a chysylltiadau da yn rhan annatod o'r hyn a wnânt o ddydd i ddydd. Mae PSED a dyletswydd Prevent ill dwy yn ddyletswyddau 'sylw dyledus'. Fel y cyfryw, gall darparwyr addysg uwch ddysgu o'r dull a'r prosesau y maent wedi'u datblygu i gydymffurfio â PSED er mwyn asesu'n well y risgiau sy'n berthnasol i atal terfysgaeth ac eithafiaeth ar y campws a dewis camau gweithredu cymesur i symud neu leihau risgiau o'r fath.

Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Dan PSED, rhaid i ddarparwyr addysg uwch roi'r 'sylw dyledus' i'r nodau canlynol wrth arfer eu swyddogaethau:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a mathau eraill o ymddygiad y mae'r Ddeddf yn eu gwahardd
- Cynyddu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rheiny nad oes ganddynt nodweddion o'r fath
- Meithrin perthynas dda gyda pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.



Fel y dangosir yn adran 1 y canllawiau yma, mae pryder y gallai'r camau gweithredu a gymerir i gydymffurfio â dyletswydd Prevent beri risg i'r cynnydd wrth ymdrin â chydraddoldeb, mynd i'r afael â rhagfarn a meithrin cysylltiadau da. Byddai asesu effaith eu polisiau neu arferion o'u cymharu â gofynion y PSED, gan gynnwys yr effaith bosibl neu wirioneddol ar staff a myfyrwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn ffordd allweddol i ddarparwyr allu rhoi'r 'sylw dyledus' i'r materion yma.

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol a nodir uchod, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus perthnasol¹⁰ yng Nghymru hefyd gydymffurfio â dyletswyddau penodol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Enghraifft

Efallai y gallai sefydliadau ystyried hyfforddiant llythrennedd crefyddol i gynorthwyo'u dyletswydd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Efallai y byddai hyn hefyd yn adeiladu gallu gweithwyr i'w cynorthwyo i wybod beth yw'r gwahaniaeth rhwng arferion crefyddol ceidwadol ac eithafiaeth.

Mae'n ofyniad dan **Adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998** bod pob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei swyddogaethau, yn parhau ac yn amddiffyn yr hawliau a'r rhyddidau y mae'r Ddeddf yn manylu arnynt¹¹. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod angen i ddarparwyr addysg uwch sicrhau bod y camau gweithredu a gymerant i gydymffurfio â dyletswydd Prevent yn gydnaws â hawliau dynol. Byddai'n arfer da felly i awdurdodau lleol asesu'r effaith bosibl y polisiau arfaethedig ar hawliau dynol cyn eu rhoi ar waith, a hefyd yr effaith wirioneddol a gânt wedi hynny.

Deddf Hawliau Dynol 1998 – Yr hawliau a'r rhyddidau mwyaf perthnasol i Prevent

- Yr hawl i barch at breifatrwydd bywyd teuluol, cartref a gohebiaeth (erthygl 8)
- Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd (erthygl 9)
- Rhyddid mynegiant, gan gynnwys y rhyddid i arddel safbwyntiau a derbyn a chyflwyno gwybodaeth a syniadau a allai beri dychryn, tramgwydd neu anesmwythd i eraill (erthygl 10)
- Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu (erthygl 11)
- Dim gwahaniaethu wrth fwynhau hawliau (erthygl 14)
- Yr hawl i addysg, gan gynnwys mynediad at sefydliadau addysgol sy'n bodoli a chydabyddiaeth swyddogol o gwblhau astudiaethau (erthygl 2 protocol 1)



Mae pob un o'r hawliau a'r rhyddidau hyn yn 'gyfyngedig' neu'n 'amodol', sy'n golygu bod modd cyfyngu arnynt dan amgylchiadau penodol¹². Er enghraifft, gall darparwyr addysg uwch gyfyngu ar hawl rhywun i ryddid mynegiant er mwyn diogelu hawliau a rhyddidau pobl eraill, os yw'r unigolyn dan sylw'n annog casineb hiliol. Gallant hefyd gyfyngu ar ryddid i ymgynnull a chymdeithasu os oes ganddynt le i gredu bod trais yn debygol o ddigwydd, ac wedi ystyriaeth ofalus o'r sefyllfa a'r dewisiadau maent yn casglu na ellir cymryd camau effeithiol i atal hynny rhag digwydd. Mae'n rhaid iddynt fod mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall posibl ond cyfyngu ar yr hawliau hynny.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y tymor hir ac yn defnyddio dulliau mwy di-fwlch er mwyn atal problemau yn y dyfodol.



Mae'r Ddeddf yn gosod saith o nodau llesiant, a fydd yn cynnwys 'Cymru fwy cyfartal' a 'Cymru o gymunedau cydlynol'. Bydd angen i sefydliadau ystyried y nodau hyn wrth roi ar waith ddyletswydd Prevent.

3. Canllawiau i lywodraethwyr

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol nodyn (CUC, 2016) yn datgan yn eglur mai llywodraethwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio â dyletswydd Prevent. Yn ogystal â hyn, llywodraethwyr sy'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod rhwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u hintegreiddio ar draws y gwaith a wna eu sefydliad i geisio cydymffurfio â dyletswydd Prevent.

Yn ymarferol, byddem yn disgwyl y byddech:

- yn hyrwyddo'r gofynion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 fel offerynnau defnyddiol i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â dyletswydd Prevent mewn modd cymesur a theg.
- sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant ar ddyletswydd Prevent sy'n cynnwys rhwymedigaethau perthnasol a chymwys o ran cydraddoldeb a hawliau dynol, yn codi ymwybyddiaeth o wahanol arferion a chred ddiwylliannol a chrefyddol ac yn mynd i'r afael â sylfeini rhagfarn a stereoteipio
- sicrhau bod eich arweinydd Prevent yn cynnal asesiad trylwyr o effaith bosibl ei gynllun gweithredu arfaethedig ar gydraddoldeb, hawliau dynol a chysylltiadau da, a'i fod wedi gwneud pob ymdrech i ymgynghori â'r gwahanol grwpiau â buddiant yn rhan o'r broses (gweler adran 4 am ragor o fanylion)
- ystyried asesiad o'r fath cyn i chi benderfynu a ddylid rhoi cam gweithredu ar waith ai peidio
- gwirio bod camau gweithredu a gymerir er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Prevent yn cael eu monitro'n ddigonol i fesur eu heffaith wirioneddol ar gydraddoldeb, hawliau dynol a chysylltiadau da, a
- sicrhau bod cwynion staff a myfyrwyr am gamau gweithredu a gymerir dan ddyletswydd Prevent yn cael eu trin yn brydlon ac yn effeithiol, bod y gwersi'n cael eu dysgu ar draws y sefydliad a bod cynllun gweithredu Prevent yn cael ei ddiwygio lle bo'n briodol.



4. Canllawiau i arweinwyr Prevent

Fel arweinydd Prevent, chi sy'n gyfrifol am adnabod y risgiau sy'n berthnasol i ddyletswydd Prevent ac am greu cynllun sy'n esbonio'r camau gweithredu y bydd eich sefydliad chi yn eu cymryd i rwystro'r risgiau hyn.

Bydd y canllawiau isod hefyd yn eich helpu asesu effaith eich camau arfaethedig mewn ffordd gadarn a chymesur. Mae arweinwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyfrifol am gynhyrchu cynlluniau cydraddoldeb strategol sydd yn adnodd pwysig yn seiliedig ar ymgysylltiad â grwpiau gwarchoddedig. Gallent hefyd fod yn 'gyfaill beirniadol' i graffu'n annibynnol ar y gwaith a wnewch i gydymffurfio â chyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol yng nghyd-destun y ddyletswydd Prevent.

4.1. Asesu effaith bosibl eich cynllun gweithredu Prevent

Dan ddyletswyddau penodol y PSED yng Nghymru mae gofyn i 'gyrff rhestredig' gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar bob newid i bolisi ac arferion sy'n effeithio ar eu gallu i gydymffurfio â'r PSED. Mae hi'n hanfodol felly bod eich cynllun gweithredu Prevent yn cael ei asesu i weld beth fyddai ei effaith ar gydraddoldeb a chysylltiadau da, ar yr un pryd ag asesiad o'i effaith ar hawliau dynol.

Awgrymw'n eich bod yn ystyried effaith gyffredinol eich cynllun gweithredu, gan edrych ar **effaith gronnus** eich camau gweithredu arfaethedig, yn hytrach na'u heffaith unigol ar ei phen ei hun.

Efallai y bydd y cwestiynau isod yn eich helpu i wneud hyn:

- A allai rhai o'ch camau gweithredu arwain at ymddygiad anghyfreithlon sy'n cael ei wahardd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?
- A allai eich cynllun effeithio ar sut y mae pobl â rhai nodweddion gwarchoddedig penodol yn gallu cael mynediad at y cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan eich sefydliad chi, neu sut y mae modd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol ar safle'r brifysgol? Allai hynny effeithio ar eu llwyddiant academaidd?
- A allai hyn effeithio ar allu myfyrwyr i deimlo'n gyfforddus yn astudio rhai pynciau, neu allu staff i deimlo'n gyfforddus wrth ddatblygu rhai cyrsiau (er enghraifft, astudio terfysgaeth)?
- A allai eich cynllun gweithredu arfaethedig ymyrryd â hawliau a rhyddid unigolion? Os felly, a yw'r camau gweithredu'n gymesur ac yn angenrheidiol?



Cofiwch



- Mae'n bwysig nad ydych yn seilio'ch asesiad dim ond ar nifer y bobl y mae cam gweithredu'n effeithio arnynt. Dylech hefyd ystyried grwpiau o bobl a allai fod yn fechan o ran nifer, ond y mae eich camau gweithredu'n effeithio'n arbennig o ddifrifol arnynt.
- Ni fydd yn dderbyniol **fyth** i'ch camau gweithredu arwain at wahaniaethu anghyfreithlon nac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (er enghraifft aflonyddu neu erledigaeth).

Bydd **tystiolaeth gadarn** yn darparu gwybodaeth ar gyfer asesiad da, er enghraifft:

- **tystiolaeth feintiol**, gan gynnwys: canlyniadau ystadegol arolygon megis yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr neu eraill sy'n cael eu cynnig ar lefel sefydliadol; data a throseddau digwyddiadau yn deillio o gasineb, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu hysgogi gan hil a chrefydd ar y campws neu yn yr ardal, a
- **thystiolaeth ansoddol**, gan gynnwys: gwybodaeth sy'n cael ei chasglu trwy ymgynghori â staff, myfirwyr a phobl eraill â buddiant, yn arbennig y rheiny y bydd eich cynllun gweithredu arfaethedig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt.

Mae ymgynghori â staff a myfirwyr yn hanfodol. Bydd yn eich galluogi i:

- **wirio** bod y **dystiolaeth** rydych chi wedi'i defnyddio i asesu effaith bosibl eich cynllun gweithredu arfaethedig yn **gadarn ac yn berthnasol**, a
- **dod o hyd i addasiadau posibl** y gallech eu gwneud i'ch cynllun, neu gamau gweithredu **priodol a chymesur** y gallai eich sefydliad eu cymryd i osgoi tansilio cydraddoldeb, hawliau dynol a pherthnasoedd da wrth roi'r cynllun ar waith.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi dreulio amser a defnyddio adnoddau i ddarbwylllo staff, myfirwyr a'u cynrychiolwyr i ymgysylltu â'r broses yma. Os ydych yn eglur ynglŷn â pham rydych yn awyddus i ymgysylltu â hwy a sut y byddwch yn ceisio defnyddio'u sylwadau a'u hawgrymiadau, fe ddylai hynny fod o help i chi.

Enghraifft

Dan **gynllun gweithredu Prevent arfaethedig** mae gofyn i fyfyrwyr sy'n dymuno trefnu unrhyw ddigwyddiad ar safle'r brifysgol ddarparu gwybodaeth berthnasol (er enghraifft, y dyddiad, yr agenda a'r siaradwyr arfaethedig) i'r Tîm Digwyddiadau/Cydlynnydd Campws mewn da bryd cyn cynnal y digwyddiad. Pan wahoddir siaradwyr gwadd allanol, disgwylir i fyfyrwyr hefyd ddarparu gwybodaeth amdanynt trwy gwblhau ffurflen rhyddid i lefaru.

Dan y cynllun arfaethedig, mae'r Tîm Digwyddiadau/Cydlynnydd Campws yn gyfrifol am adolygu'r wybodaeth trwy'r ffurflenni rhyddid i lefaru ac am asesu a yw digwyddiad yn debygol o greu risg sy'n berthnasol i ddyletswydd Prevent. Os felly, mae gofyn i'r Tîm Digwyddiadau/Cydlynnydd Campws gysylltu ag arweinydd Prevent er mwyn iddo ef/iddi hi benderfynu beth yw'r peth gorau i'w wneud.

Wedi trafod cynllun gweithredu arfaethedig Prevent gyda staff a myfyrwyr (gan gynnwys undeb y myfyrwyr a chynrychiolwyr cymdeithasau), mae arweinydd Prevent **yn ei ddiwygio i gynnwys camau gweithredu ychwanegol** i'w rhoi ar waith os gwelir bod yna broblemau posibl yn codi o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yn sgil digwyddiad sy'n cael ei drefnu. Dylai'r camau gweithredu gynnwys y canlynol:

- Mae arweinydd Prevent yn cynnal Cyfarfod Adolygu digwyddiad gyda'r rhanddeiliaid canlynol: y Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; Tîm Digwyddiadau/Cydlynnydd Campws; cynrychiolydd o undeb/cymdeithas y myfyrwyr; trefnydd y digwyddiad; ac aelod o Dîm Diogelwch y Campws.
 - Lle bo'n briodol, bydd y bobl â buddiant yn trafod y sefyllfa, gan gynnwys y camau y gellid eu cymryd i alluogi'r digwyddiad i gael ei gynnal heb arwain at weithredoedd anghyfreithlon (er enghraifft, annog casineb hiliol), tyndra neu drais ar y campws.
 - Bydd yr aelodau a fynychodd y Cyfarfod Adolygu'r Digwyddiad yn derbyn canllawiau clir ar sut y dylid defnyddio a storio'r wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â'r digwyddiad arfaethedig, a sut y gellid ei rhannu o bosibl gydag asiantaethau allanol.
-

4.2. Rhannu gwybodaeth â llywodraethwyr a monitro'r effaith wirioneddol

Er mwyn sicrhau bod llywodraethwyr yn penderfynu ar sail gwybodaeth pa gamau gweithredu y dylid eu rhoi ar waith i gydymffurfio â'r ddyletswydd Prevent mewn modd cymesur a theg, dylech ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol iddynt er mwyn iddynt allu craffu a bod yn hyderus ynglŷn â'u penderfyniad, gan gynnwys:

- cynllun gweithredu arfaethedig Prevent
- y gwaith a wneir i asesu ei effaith bosibl ar gydraddoldeb, hawliau dynol a chysylltiadau da
- pryd a sut y bydd eich cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro i ddarganfod eu heffaith ar gydraddoldeb, cysylltiadau da a hawliau dynol, a
- sut y bydd unrhyw broblemau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu huwchgwyfeirio at y llywodraethwyr.

Byddwch am ystyried amrywiaeth o ddangosyddion i fonitro effaith eich cynllun gweithredu Prevent.

Dangosyddion perfformiad posibl



- Cymhareb a nodweddion gwarchoddedig myfyrwyr sy'n cael eu cyfeirio at raglen Channel¹³ gan y brifysgol, o'u cymharu â'r rheiny sy'n mynd ati i dderbyn cymorth gan y rhaglen, ac os yn bosibl, sut y mae'r rhain yn eu tro yn cymharu ag ystadegau o awdurdodau penodedig eraill sydd dan ddyletswydd Prevent¹⁴.
- Canlyniadau arolygon sefydliadol ar hyder staff a myfyrwyr i fynegi pwy ydynt, beth a gredant, a pha mor ddiogel a deimlant ynglŷn â rhyngweithio ag eraill.
- Gwybodaeth wedi'i dadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchoddedig ar gwynion a godir gan staff a myfyrwyr sy'n berthnasol i Prevent a deilliannau'r cwynion hyn.
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n cael eu diddymu/siaradwyr na roddwyd llwyfan iddynt (ynghyd â'r rhesymau am hyn, partneriaid a oedd yn rhan o'r penderfyniadau hyn, camau rhwystro a gafodd eu hystyried ac yna'u diystyru, a nodweddion gwarchoddedig y siaradwyr).
- Cymhareb a nodweddion gwarchoddedig y siaradwyr y mae gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth dan ddyletswydd Prevent a dadansoddiad o'r rhesymau dros hyn.
- Ystadegau wedi'u dadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchoddedig ar gyfraddau cofrestru a thynnu'n ôl ar gyfer gwahanol gyrsiau a gweithgareddau, ynghyd â dadansoddiad o'r rhesymau dros hyn.

Enghraifft

Wedi iddo gyflwyno'i gynllun gweithredu Prevent, mae prifysgol yn cynnal ymchwil i asesu ei effaith wirioneddol. Mae'r ymchwil yn dangos, ers cyflwyno'r cynllun:

- bod cynnydd mewn cam-drin geiriol ac ymosodiadau corfforol yn erbyn myfyrwyr Mwslimaidd a Sikh ar y campws
- bod nifer cynyddol o fyfyrwyr o'r cefndiroedd hyn yn teimlo'n anghyfforddus yn mynegi'u crefydd ar y campws, a
- bod rhai myfyrwyr wedi tynnu'n ôl o weithgareddau a drefnir gan Gymdeithasau Mwslimaidd a Sikh y brifysgol oherwydd ofn ymosodiad, cael eu hynysu, bod yn destun gwyliaeth neu gael eu cyfeirio at raglen Channel.

Mae'r dystiolaeth yn y dadansoddiad yn dangos bod y cynnydd mewn digwyddiadau sy'n cael eu hysgogi gan grefydd yn gysylltiedig i ddigwyddiadau allanol yn hytrach na'r gweithredu dan ddyletswydd Prevent. Mae hefyd yn dangos na chafodd yr un myfyrwr ei gyfeirio at Raglen Channel ers cyflwyno'r cynllun. Fodd bynnag, roedd arweinydd Prevent wedi cael gwybod gan staff a myfyrwyr y gallai rhai o'r myfyrwyr fod 'o bosibl yn agored i derfysgaeth', sy'n awgrymu bod yna **broblem gydag adroddiadau na ellir eu cyfiawnhau**.

Mae arweinydd Prevent yn trafod y sefyllfa gyda Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y brifysgol ac mae'r ddau'n penderfynu bod angen **cyfarfod â chynrychiolwyr myfyrwyr Mwslimaidd a Sikh i ystyried a oes angen diwygio cynllun gweithredu Prevent ai peidio**. I annog yr ymgysylltu, maent hefyd yn cytuno i'r cyfarfod gael ei drefnu a'i gadeirio gan y Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, rhywun y mae'r myfyrwyr yn ei ystyried fel unigolyn niwtral ac annibynnol.

Mae'r cyfranogion yn cytuno y gallai achosion o gyflwyno adroddiadau na ellir mo'u cyfiawnhau i arweinydd Prevent fod yn ffactor bwysig sy'n cyfrannu at ofn myfyrwyr Mwslimaidd a Sikh i fynegi'u crefydd ar y campws. Maent yn awgrymu y dylid newid y **'polisi adrodd' yng nghynllun Prevent** fel bod unrhyw achos o gyflwyno adroddiad na ellir mo'i gyfiawnhau:

- yn destun ymchwiliad gan banel annibynnol i bennu beth sydd wedi achosi hyn, gan
- arwain at: hyfforddiant gorfodol ychwanegol i fynd i'r afael â rhagfarn a stereoteipio'r rheiny sydd dan sylw; neu fesurau eraill y tybir eu bod yn briodol dan God Ymddygiad y brifysgol.

Mae arweinydd Prevent yn penderfynu adolygu cynllun gweithredu Prevent i roi'r awgrymiadau hyn ar waith. Hefyd, mae'r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnig lansio ymgyrch i ailadrodd: ymrwymiad y brifysgol i gydraddoldeb a hawliau dynol; ei safbwynt ar drin trosedd casineb sy'n cael ei ysgogi gan grefydd ac achosion o gyflwyno adroddiadau na ellir mo'u cyfiawnhau am fyfyrwyr dan ddyletswydd Prevent; a'i gefnogaeth i'r gweithgareddau y mae pob cymdeithas ar y campws yn ei chynnig, gan gynnwys y rheiny o natur grefyddol, cyn belled eu bod hwythau hefyd yn parchu rhyddid a hawl pob aelod o staff a phob myfyriwr.

Derbynnir y ddau gynnig fel ei gilydd gan gorff llywodraethu'r brifysgol a rhoddir y cynigion ar waith. Hefyd, rhoddir cynllun ar waith i fonitro effaith wirioneddol y camau gweithredu newydd hyn a'r ymgyrch.

5. Sicrhau eglurder ac atebolrwydd

Awgrymwn fod eich sefydliad:

- yn rhoi adborth i'r staff a'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y broses ymgynghori ar gyfer datblygu cynllun gweithredu Prevent ar sut y cafodd eu sylwadau a'u hawgrymiadau eu hystyried wrth lunio penderfyniad
- yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r ystyriaethau cydraddoldeb, cysylltiadau da a hawliau dynol¹⁵ a wnaeth y llywodraethwyr wrth drafod eich cynllun gweithredu arfaethedig Prevent (dylai hyn gynnwys y penderfyniadau a wnaethant, a'r dystiolaeth oedd yn sail i'r rhain)
- yn cadw cofnod o'r gwaith a wnaed i asesu effaith wirioneddol y cynllun gweithredu, gan gynnwys unrhyw destun pryder a uwchgyfeiriwyd at y llywodraethwyr a sut y mae'r rhain o bosibl wedi darparu gwybodaeth ar gyfer unrhyw adolygiad o'ch cynllun gweithredu, a
- rhoi system ar waith i bobl allu cael mynediad rhwydd at y gwaith a wnaethoch i gydymffurfio â dyletswydd Prevent a'ch rhwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol (gallai hyn gynnwys cyhoeddi dogfennau perthnasol ar eich gwefan neu alluogi pobl i wneud cais i weld gwybodaeth yn brydlon).

6. Safbwynt Cymru

Fforymau Prevent Addysg Uwch a Phellach Cymru

Sefydlwyd Fforymau Addysg Uwch Gogledd a De Cymru cyn i Prevent ddod yn ddyletswydd dan gyfraith y Deyrnas Unedig. Datblygu polisïau a gweithdrefnau yw ffocws y fforymau. Gwneir hyn trwy bartneriaeth weithio agos i sicrhau bod yr agenda'n gydnaws ag egwyddorion Sefydliadol Rhyddid i Lefaru a Rhyddid Academaidd yng nghyd-destun Diogelu'r Bregus.

Mae'r Fforymau'n cynorthwyo sefydliadau addysg Uwch yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth â'r Heddluoedd perthnasol, Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU) a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar Agenda Prevent.

Mae'r dull partneriaeth hwn o ymdrin â Prevent mewn sefydliadau AU ac AB yng Nghymru wedi golygu ein bod wedi dysgu'r naill oddi wrth y llall am ba bolisïau a gweithdrefnau sydd fwyaf effeithiol. Mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth ymhlith cymunedau lleol a chymunedau myfyrwyr nad yw Prevent yn ymwneud â phlisma neu ddarganfod bod demograffeg benodol yn darged posibl. Mae nifer isel yr atgyfeiriadau i asiantaethau allanol (er enghraifft yr heddlu) ar sail gwybodaeth ddisylwedd, a hefyd ansawdd unrhyw atgyfeiriadau perthnasol sy'n cael eu gwneud i Channel yn tystio i hyn.

7. Rhagor o wybodaeth

1. Committee of University Chairs (2016), 'Illustrative Practice Note 2: Prevent Strategy Governing Body Responsibility for Counter-Terrorism and Prevent Agenda'. Ar gael: <http://www.universitychairs.ac.uk/wp-content/uploads/2016/05/IPN2-Counter-Terrorism-and-Prevent-Agenda4.pdf> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
 2. David Ruebain (2016), Module 3 – The Prevent duty in the context of other legislation and legal duties. Ar gael: <http://www.safecampuscommunities.ac.uk/training/module-3-the-prevent-duty-in-the-context-of-other-legislation-and-legal-duties> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]. Sylwch y bydd angen i chi danysgrifio i Safe Campus Communities i ddefnyddio'r adnodd yma.
 3. Equality Challenge Unit (2013), 'Promoting good relations on campus: a guide for higher and further education'. Ar gael: <http://www.ecu.ac.uk/publications/promoting-good-relations/> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
 4. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010), , Cyfarwyddyd Technegol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru". Ar gael: <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/technical-guidance-public-sector-equality-duty-wales> [agorwyd: 04 Ebrill 2017]
 5. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014), 'Equality Act 2010 Technical Guidance on Further and Higher Education'. Ar gael: <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/equality-act-2010-technical-guidance-further-and-higher-education> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
 6. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2014), 'Hawliau Dynol: Bywydau Dynol: Canllaw i'r Ddeddf Hawliau Dynol ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus'. Ar gael: <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/human-rights-human-lives-guide-human-rights-act-public-authorities> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
 7. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2015), 'Freedom of expression legal framework'. Ar gael: <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/freedom-expression-legal-framework> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
 8. HEFCE (2016), 'The Prevent duty in higher education in England: updated advice note for institutions'. Ar gael: <http://www.hefce.ac.uk/pubs/year/2016/201624/> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
 9. HEFCE (2016), 'The Prevent duty: monitoring framework for the higher education sector'. Ar gael: <http://www.hefce.ac.uk/pubs/year/2015/201532/> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
 10. Llywodraeth EM (2015), 'Prevent Duty Guidance: for higher education institutions in England and Wales'. Ar gael: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445916/Prevent_Duty_Guidance_For_Higher_Education_England_Wales_.pdf [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
-

11. Llywodraeth EM (2015), 'Revised Prevent Duty Guidance for England and Wales: Guidance for specified authorities in England and Wales on the duty in the Counter-Terrorism and Security Act 2015 to have due regard to the need to prevent people from being drawn into terrorism'. Ar gael: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445977/3799_Revised_Prevent_Duty_Guidance_England_Wales_V2-Interactive.pdf [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
12. Llywodraeth EM (2015), 'Channel Duty Guidance: Protecting vulnerable people from being drawn into terrorism: Statutory guidance for Channel panel members and partners of local panels'. Ar gael: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/425189/Channel_Duty_Guidance_April_2015.pdf [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
13. Universities UK (2013), 'External speakers in higher education institutions'. Ar gael: <http://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Pages/external-speakers-in-higher-education-institutions.aspx> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]

8. Ôl-nodyn

1. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn diffinio eithafiaeth fel gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheol gyfreithiol, rhyddid yr unigolyn a pharch y naill i'r llall a goddefgarwch i rai o wahanol ffydd a chred. Mae'n cynnwys eithafiaeth dreisgar ond hefyd eithafiaeth nad yw'n dreisgar, sy'n gallu creu awyrgylch sy'n gallu meithrin terfysgaeth a phoblogeiddio safbwyntiau y mae terfysgwyr yn eu hecsbloetio.
 2. Gweler: <https://www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk/screen23> [24 Ionawr 2017]
 3. Er enghraifft, mae ymchwil ddiweddar yn dangos bod myfyrwyr rhyngwladol yn gynyddol yn gwerthfawrogi 'diogelwch personol' ac 'amlddiwylliannaeth', sydd yn eu barn hwy wedi'u cyd-blethu, wrth ddewis prifysgol. Gweler : <https://www.britishcouncil.org/sites/default/files/oth-integration-report-september-14.pdf> [agorwyd: 24 Ionawr 2017]
 4. Mae hyn yn cynnwys **sefydliadau addysg uwch** sy'n cael eu cyllido'n uniongyrchol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; darparwyr amgen y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'u dynodi ar gyfer cyrsiau penodol at ddibenion cyllido myfyrwyr o Loegr; darparwyr eraill sy'n darparu addysg uwch i gyfanswm o fwy na 250 o fyfyrwyr
 5. Bydd gan y rhan fwyaf o gyrff llywodraethu neu berchnogion darpariaeth addysg uwch gyfrifoldebau dan ddyletswydd Prevent a than ddyletswyddau sy'n rhan o gyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswydd Prevent yn diffinio cyrsiau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr trwy
-

gyfeirio at y rheiny sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 6 Deddf Diwygio Addysg 1988. Mae a wnelo dyletswyddau cyfraith cydraddoldeb â phrifysgolion, colegau prifysgol, a cholegau, ysgolion neu neuaddau prifysgol. Mae sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan gorfforaethau addysg uwch a'r rheiny y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u dynodi yn rhai sy'n gymwys i dderbyn cyllid oddi wrth gynghorau cyllid addysg uwch (gweler 91 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992), yn sefydliadau addysg uwch eraill y mae'r gyfraith cydraddoldeb yn berthnasol iddyn nhw. Y mae a wnelo dyletswydd Prevent â chorfforaethau addysg uwch, sefydliadau dynodedig a phrifysgolion (gan gynnwys coleg, ysgol neu neuadd prifysgol) sydd â hawl i gyflwyno dyfarniadau academaidd trwy Ddeddf Seneddol, Siarter Frenhinol neu orchymyn Cyfrin Gyngor - boed y sefydliad yn derbyn cyllid oddi wrth y cynghorau cyllid ar eu cyfer ai peidio. (Adran 11 Deddf Addysg Uwch 2004). Yn ogystal â hyn, mae dyletswydd Prevent yn cwmpasu sefydliadau (nad ydynt wedi'u rhestru fel arall) a chanddynt fwy na 250 o fyfyrwyr yn astudio ar gyrsiau dysgu o bell – wrthi'n dilyn y cyrsiau addysg uwch y sonnir amdanynt yn Atodlen 6 Deddf Diwygio Addysgu 1988.

6. Gofyniad dan adran 43 Deddf Addysg (Rhif 2) 1986 ac adran 202 (2) Deddf Diwygio Addysg 1988.
 7. Pennod 2 Rhan 6.
 8. Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: oed; anabledd gan gynnwys amhariad corfforol a meddyliol; ailbennu rhywedd; hil gan gynnwys lliw, cenedl, tarddiad ethnig neu genedlaethol; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; beichiogrwydd a mamolaeth; a phriodas a phartneriaeth sifil. Nid yw nodwedd warchoddedig priodas a phartneriaeth sifil yn cael ei gynnwys yng ngofynion gwrth-wahaniaethu a gwrth-aflonyddu Pennod 2 Rhan 6 Deddf Cydraddoldeb 2010. Nid ydyw ychwaith wedi'i gynnwys yn nodau PSED o gynyddu cydraddoldeb neu feithrin perthnasoedd da.
 9. Pennod 1 Rhan 11.
 10. Wedi'u rhestru yn Rhan 2 Atodlen 19 Deddf Cydraddoldeb 2010
 11. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r rhan fwyaf o'r hawliau a'r rhyddidau a geir yng Nghonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol yng nghyfraith ddomestig Prydain.
 12. Dim ond os gall awdurdodau cyhoeddus ddangos ei bod yn gymesur mewn sefyllfa benodol oherwydd ei bod yn dilyn nod gyfreithlon, ei bod yn unol â'r gyfraith, a'i bod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gweler y rhestr adnoddau yn yr adran 'Rhagor o Wybodaeth'.
 13. Mae hon yn rhaglen amlasiantaethol I nodi a darparu cefnogaeth I rai sydd mewn perygl o gae eu radicaleiddio. Am ragor o wybodaeth, gweler Llywodraeth EM (2015) [gweler yr adran 'Rhagor o wybodaeth']
-

14. Er enghraifft, ystadegau ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion, colegau heddluoedd a sefydliadau'r GIG.
 15. Mae gofyniad i awdurdodau fynd i'r afael â gofynion PSED yn fwriadol wrth ddatblygu polisiau a chyn llunio unrhyw benderfyniadau. Bydd cofnodion sy'n dangos bod hyn wedi digwydd yn fuddiol i awdurdodau os cyfyd unrhyw ymholiad neu honiad o ddiffyg cydymffurfio gyda'r rhwymedigaethau cyfreithiol hynny.
-

Cysylltu

Mae'r cyhoeddiad hwn a'r adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gael o

www.equalityhumanrights.com

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd am gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol am ddim.

Website	www.equalityadvisoryservice.com
Telephone	0808 800 0082
Textphone	0808 800 0084
Hours	09:00 to 19:00 (Dydd Llun i Ddydd Gwener) 10:00 to 14:00 (Dydd Sadwrn)
Post	FREEPOST Equality Advisory Support Service FPN4431

Gallwch anfon cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad hwn i:

wales@equalityhumanrights.com.

Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o

www.equalityhumanrights.com. I gael gwybodaeth

am ddefnyddio cyhoeddiad y Comisiwn ar fformat amgen, cysylltwch â:

wales@equalityhumanrights.com.

Mae'r cyhoeddiad hwn a'r adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gael o

www.equalityhumanrights.com/wales

© 2017 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd : Medi 2017
ISBN: 978-1-84206-714-7



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission